Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Ysgol Aran Hall

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Aran Hall yn ysgol arbennig annibynnol breswyl i ddysgwyr ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol, gerllaw tref Dolgellau yng ngogledd Cymru.

Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd sy’n meithrin a gofalu, gyda chwricwlwm eang a chytbwys sydd:

- yn lleihau ymddygiad heriol;
- yn cynyddu cyfathrebu swyddogaethol;
- yn datblygu sgiliau hunanofal a byw’n annibynnol; ac
- yn cynyddu cyfranogiad cymunedol ac integreiddio cymdeithasol.

Mae’r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cryf â Phrifysgol Nova Southeastern yn Unol Daleithiau America a Phrifysgol Bangor yng Nghymru i ddatblygu medrau ac arbenigedd ei staff o ran defnyddio dadansoddiad ymddygiadol cymhwysol i gynllunio, monitro ac arfarnu ymddygiad dysgwyr a llywio dulliau addysgu.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dyma gryfderau’r ysgol:

- mae disgyblion yn ymroi’n dda i raglen strwythuredig o addysg bersonol a chymdeithasol, ac addysg rhyw a pherthnasoedd, sydd wedi’i theilwra i’w hanghenion unigol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fagu hyder a datblygu strategaethau i gadw’u hunain yn ddiogel;
- mae disgyblion yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ymchwilio i’w gwaith a’i gyflwyno, mewn ystod eang o weithgareddau dysgu;
- mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Maent yn ymddwyn yn groesawgar at ymwelwyr ac yn siarad am eu cyflawniadau yn hyderus;
- mae’r ysgol yn cymryd rhan weithgar mewn ymchwil academaidd ac mae wedi datblygu dulliau arloesol o olrhain a dadansoddi ymddygiad disgyblion;
- mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda;
- mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi ac yn bodloni anghenion datblygu athrawon yn dda. O ganlyniad, mae athrawon yn ennill gwybodaeth a medrau newydd;
- mae’r ysgol yn ymwneud yn llwyddiannus ag ystod o bartneriaid sy’n cynnig profiad gwaith a phrofiadau dysgu cymdeithasol gwerthfawr i ddisgyblion. Mae’r partneriaethau hyn yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu hwnt i’r ysgol; ac
- mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Meysydd i'w datblygu

Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:

- er bod staff yn rhoi adborth manwl i ddisgyblion ynghylch cwblhau tasgau ac ymddygiad, nid yw'r adborth yn ymwneud yn benodol â datblygiad medrau ac nid yw'n dweud wrth ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith;
- nid yw arfer orau o ran cynllunio cynlluniau gwaith yn cael ei rhannu'n helaeth ar draws yr ysgol ac mae ansawdd y cynllunio'n amrywio'n ormodol; ac
- mae arweinwyr a rheolwyr yn cwblhau arsylwadau gwersi'n rheolaidd ac yn monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu'n dda. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau'n canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi.

## Argymhellion

A1 Gwella asesu i sicrhau bod athrawon yn rhoi adborth manwl i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod sut i wella'u gwaith

A2 Sicrhau bod arfer orau ar gyfer cynllunio a datblygu cynlluniau gwaith ar waith ar draws yr ysgol

A3 Datblygu ymhellach y broses arsylwi gwersi i gynnwys arfarniad o'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi

## Cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr gael achrediad mewn ystod briodol o fyfyrwyr

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae disgyblion yn cael at ystod briodol o gyrsiau sy'n gysylltiedig â'u gallu a'u diddordebau. Mae disgyblion yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig gan gynnwys cyrsiau TGAU a'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu (ASDAN) lle y bo'n briodol. Mae'r ysgol yn cydgysylltu'n dda â cholegau lleol i ymestyn ystod y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion.

**Argymhelliad 2:** Cynyddu'r defnydd o TGCh gan y disgyblion i gael at y cwricwlwm a chofnodi eu gwaith

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn darparu caledwedd TGCh ac mae gan bob disgybl lechen electronig unigol erbyn hyn, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron pen desg yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae disgyblion yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i fanteisio ar y cwricwlwm a chofnodi eu gwaith mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu yn y gymuned eraill. Mae'r defnydd ar y rhyngrwyd gan ddisgyblion yn cael ei fonitro'n fanwl ac mae dulliau rheoli priodol ar waith ar gyfer diogelu disgyblion.

**Argymhelliad 3:** Olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, yn enwedig o ran medrau llythrennedd a rhifedd

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn y pynciau craidd yn dda ac mae ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Caiff medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion eu hasesu pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac mae athrawon yn cael cefnogaeth gan asesiadau pellach a chyngor gan seicolegydd addysg. Mae athrawon yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn y rhan fwyaf o gynlluniau sesiynau ac yn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd.

**Argymhelliad 4:** Sicrhau bod targedau dysgu yn briodol ac yn cyd-fynd â gallu disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'i gweithdrefnau ar gyfer ysgrifennu cynlluniau addysg unigol (CAUau). Bellwch, mae'r CAUau yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy, gyda meini prawf cyflawni, strategaethau ac adnoddau priodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i nodi effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Aran Hall |
| **Rhif yr ysgol** | 661/6022 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 6 – 7 Mai 2014 |
| **Perchennog** | SENAD |
| **Staff** | 1 x Pennaeth<br>4 x Athro<br>5 x Cynorthwyydd ystafell ddosbarth<br>54 x Gweithiwr cymorth gofal<br>7 x Staff gweinyddol / cynorthwyol |
| **Nifer y disgyblion** | 10 ar y gofrestr |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth breswyl i fechgyn a merched 11 i 19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol.<br>Mae cartref y plant yn cynnig lleoliadau preswyl 52 wythnos, 44 wythnos a 38 wythnos. |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Mae gan ddisgyblion anableddau dysgu ac ymddygiad heriol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mawrth 2010 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Tachwedd 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Chwefror 2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |
| **Arolygydd Tîm** | Ann Dackevych |